# Uned 6A: Defnyddio Meddalwedd Cyflwyno i Gyfleu Ystyr

**TGCh Blwyddyn 6**

## Ynglyn â'r Uned:

Yn yr uned hon mae plant yn dysgu sut i greu cyflwyniad gan ddefnyddio testun, delweddau, seiniau a chlipiau fideo. Byddant yn cael eu hannog i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth y maen nhw wedi'u dysgu mewn unedau eraill i greu cyflwyniadau sy'n sensitif i anghenion eu cynulleidfa. Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth gyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth mewn cerddoriaeth, celf, hanes, daearyddiaeth, gwyddoniaeth, addysg grefyddol, Y Cwricwlwm Cymreig, dylunio a thechnoleg a allai bod yn hynod o ddefnyddiol ar gyfer ddadlau a thestunau perswadiol yn Saesneg.

## Ble mae'r Uned yn ffitio:

Mae'r uned yn adeiladu ar y rholl unedau sy'n gysylltiedig â phrosesu geiriau, gosodiad, a defnyddio delweddau

Mae'r uned hon yn cymryd ynganiataol bod plant:

- wedi creu dogfennau ar brosesydd geiriau, gan ystyried y cynllun, yr arddull a'r ysgrifennu ar gyfer y gynulleidfa darged
- deall dadlau a pherswadio

## Geirfa:

Cyflwyniad | Sleid | Dosbarthwr Sleidiau | Pwyntiau bwled | Gweld | Nesaf | Blaenorol | Gosodiadau | Taflenni

## Adnoddau:

Meddalwed Cyflwyno Amlgyfrwng | Banciau adnoddau sy'n cynnwys delweddau, clip art, animeiddiadau, seiniau, cerddoriaeth a fideo | Taflunydd| Sgrîn Arddangos Fawr | Argraffydd

## Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

*Bydd mwyafrif y plant yn gallu:* creu cyflwyniad amlgyfrwng sy'n cynnwys testun, delweddau a seiniau i gyfleu ystyr ar gyfer cynulleidfa darged a chyflwyno eu gwaith i'r dosbarth.

*Bydd rhai palnt dim ond yn gallu:* creu cyflwyniad amlgyfrwng sy'n cynnwys testun a delweddau ond bydd angen cymorth arnynt i fireinio eu gwaith ar gyfer y gynulleidfa darged.

*Hefyd bydd rhai plant yn gallu: creu cyflwyniad amlgyfrwng sy'n cynnwys testun, delweddau, seiniau a chlipiau fideo yn ogystal â dadl berswadiol ac effeithiol a gynlluniwyd yn dda. Byddant yn cyflwyno eu gwaith i gynulleidfa gan ddefnyddio taflenni ac o bosib nodiadau y siaradwr, ac, wrth gyflwyno, yn defnyddio offer amlygu i bwysleisio pwyntiau penodol.*

*© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithioIrwydd Addysg*

| **Amcanion Dysgu**<br>*Dylai disgyblion ddysgu…* | **Gweithgareddau Posib** | **Canlyniadau Dysgu**<br>*Gall disgyblion…* | **Pwyntiau i'w nodi** |
|---|---|---|---|
| **Gosod yr Olygfa** | | | |
| • **pwynt allwedol:** bod meddalwedd cyflwyno'n gallu cael ei ddefnyddio i drefnu, mireinio a chyflwyno gwybodaeth. | • Creu a defnyddio sioe sleidiau i ddangos i'r plant sut mae defnyddio meddalwedd cyflwyno fel ffordd effeithiol o gyfleu ystyr i gynulleidfa benodol. Esboniwch wrthynt mai nhw yw'r gynulleidfa ar gyfer eich cyflwyniad. Dylai'r cyflwyniad gynnwys: gwybodaeth am beth sy'n gwneud cyflwyniad da; rhai sleidiau enghreifftiol sy'n dangos technegau cyflwyno gwael; testun; daelweddau; clipiau sain a fideo. Trafodwch nodweddion cyflwyniadau da â'r plant a'u rhybuddio ynghylch defnyddio gormod o effeithiau sy'n tynnu sylw'r gynulleidfa oddi ar ystyr a chynnwys y cyflwyniad. Dylid nodi bod pwyntiau pwysig yn ymddangos ar y sgrîn fel awgrymiadau i'r siaradwr am yr hyn y mae angen iddynt ei ddweud ac yn ffurfio pwyntiau allweddol i'r gynulleidfa eu gweld. Nid yw popeth sy'n cael ei ddweud yn ymddangos ar y sgrîn.<br>• Esboniwch wrth y plant y byddant yn cynllunio ac yn gwneud eu cyflwyniad sleid amlgyfrwng eu hunain. | • Siarad am bwyntiau da'r cyflwyniad.<br>• Deall bod cyflwyniad yn cyfleu ystyr ac yn cael ei anelu at gynulleidfa arbennig. | • Gall plant ddefnyddio gormod o arddulliau ffont ac effeithiau, a fydd yn tynnu sylw eu cynulleidfa oddi ar yr hyn a ddywedir.<br>• Defnyddio rhai sleidiau sydd â chefndiroedd ymwthiol, maint y ffont yn rhy fach, mewn testun nad yw'n hawdd ei ddarllen, mewn lliw nad yw'n hawdd ei weld ar y cefndir, i bwysleisio bod y pwyntiau hyn yn bwysig er mwyn ystyried y gynulleidfa. Trafodwch y pwyntiau â'r dosbarth. |
| **Tasgau byr wedi'u Ffocysu** | | | |
| • **pwynt allweddol:** defnyddio meddalwedd cyflwyno i fwydo testun a darluniau i drefnu, mireinio a chyflwyno gwybodaeth.<br>• **techneg:** creu ychydig o sleidiau mewn meddalwedd cyflwyno i gyflwyno i'r dosbarth neu'r grŵp. | • Dangswch sut i ddefnyddio templadau i ddewis ardull priodol ar gyfer y cyflwyniad, ystyriwch sut bydd y gynulleidfa yn ei weld. Efallai bydd rhai sleidiau'n cynnwys fframiau testun, pwyntiau bwled, fframiau lluniau etc.<br>• Gofynnwch i'r plant wneud cyflwyniad nad yw'n cynnwys mwy na 4 sleid amdanynt eu hunain. Gallent ystyried eu hoff dimau pêl-droed/sêr pop/llyfr/anifail anwes etc. Dylai'r plant nodi eu cynllun ar bapur. | • Trefnu a mireinio eu meddyliau mewn pwyntiau allweddol a gosod y wybodaeth ar yr un sleid/sleidiau.<br>• Creu sioe pedair tudalen, cadw'n rheolaidd a chyflwyno eu sioe i'r dosbarth neu'r grŵp. | • Gallai plant benderfynu ar ba rai oedd y cyflwyniadau mwyaf effeithiol, gan esbonio eu rhesymau. |

*© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg*

| **Amcanion Dysgu**<br>*Dylai disgyblion ddysgu…* | **Gweithgareddau Posib** | **Canlyniadau Dysgu**<br>*Gall disgyblion…* | **Pwyntiau i'w nodi** |
|---|---|---|---|
| **Tasgau byr wedi'u Ffocysu (parhad)** | | | |
| • **techneg:** gweithio ar brosiect ar y cyd i drefnu, mireinio a chyflwyno gwybodaeth<br>• defnyddio CD-ROM a'r Rhyngrwyd i ymchwilio<br>• defnyddio nodiadau siaradwr, argraffu'r cyflwyniad ac argraffu taflenni i'r gynulleidfa | • Esboniwch wrth y plant eu bod yn mynd i gynhyrchu cyflwyniad mewn ffurf naratif gyda darluniau, a fydd yn dweud wrth eu cynulleidfa am fywyd plentyn yn oes Fictoria.<br>• Rhannwch y plant mewn grwpiau a gofynnwch iddynt gynllunio eu sleidiau i gynnwys agweddau ar oes Fictoria y maen nhw wedi'u hastudio. O fewn pob grŵp, gofynnwch i barau o blant ganolbwyntio ar un agwedd ar fywyd, e.e. bywyd ysgol, llafur plant, teganau, dosbarthiadau uchaf ac isaf, dillad, etc. Gallai'r plant ddefnyddio'r rhyngrwyd neu CD-ROM i gyflawni ymchwil ychwanegol gan gadw delweddau priodol i'w defndyddio nes ymlaen yn eu cyflwyniad.<br>• Gofynnwch i'r plant weithio mewn parau i gynhyrchu tudalennau, a ddylai gynnwys daelweddau a thestun. Hefyd gallent ystyried defnyddio animeiddiad neu glipiau ffilm priodol. Wedyn, dylid cyfuno'r sleidiau i ffurfio cyflwyniad grŵp.<br>• Dangoswch enghreifftiau o waith ar y gweill i'r dosbarth, ac anogwch y plant i addasu eu gwaith yn sgîl sylwadau a wneir gan blant eraill. Ystyriwch pa mor hawdd ydyw i ddarllen a deall y gwaith. Sut mae'r darluniau yn helpu i'r gynulleidfa ddeall sut roedd pobl yn byw yn oes Fictoria? I ba raddau y mae'r cyflwyniad yn cyfleu delwedd glir o fywyd plentyn oes Fictoria? I ba raddau y mae'n helpu i'r gynulleidfa gymharu bywyd plentyn oes Fictoria a nawr?<br>• Dangoswch i'r plant yr opsiynau gwahanol sydd ganddynt ar gyfer argraffu eu sleidiau a sut i argraffu taflenni ar gyfer y gynulleidfa. | • Gyd-weithio i ymchwilio, cynllunio, addasu a threfnu gwybodaeth.<br>• Cyfuno sleidiau i ffurfio cyflwyniad grŵp.<br>• Gwerthuso eu gwaith a gwaith pobl eraill i wella eu cyflwyniad.<br>• Defnyddio'r opsiynau argraffu. | • Gallai plant fwy galluog ychwanegu nodiadau siaradwr (os bydd y feddalwedd yn caniatáu) a dewis ac argraffu taflenni priodol i'r gynulleidfa eu defnyddio. Hefyd gallent gynnwys clipiau byr o fideo a gellir eu hannog i ddefnyddio offer amlygu yn ystod y cyflwyniad. |

*© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithioIrwydd Addysg*

| **Amcanion Dysgu**<br>*Dylai disgyblion ddysgu…* | **Gweithgareddau Posib** | **Canlyniadau Dysgu**<br>*Gall disgyblion…* | **Pwyntiau i'w nodi** |
|---|---|---|---|
| **Tasgau byr wedi'u Ffocysu (parhad)** | | | |
| • **pwynt allweddol:** defnyddio meddalwedd cyflwyno gydag effeithiau amlgyfrwng i gyflwyno stori mewn ffurfiau gwahanol ar gyfer cynulleidfa penodol<br>• **techneg**: cynnwys effeithiau sain, lleferydd a cherddoriaeth wedi'i recordio. | • Darllenwch darn o ffuglen addas gyda'r dosbarth. Dangoswch y darluniiau mewn fformat mawr neu defnyddiwch daflunydd data gyda thudalennau wedi'u sganio. Esboniwch yr amcanion a'r prif ganlyniadau ysgrifennu wrth y plant.<br>• Mae plant yn gweithio mewn grwpiau i ail-ddarllen y testun. Maen nhw'n defnyddio dalennau mawr o bapur i ysgrifennu eu hymatebion cyntaf i'r stori o ran e.e. thema, cymeriadau, lleoliad, eu teimladau, y defnydd o syrpreis yn y stori. Dylent ystyried cymeriadaeth a thechnegau'r awdur i ddatblygu hyn.<br>• Dangoswch sut i recordio seiniau gan ddefnyddio meicroffon cyfrifiadur<br>• Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau bach i greu cyflwyniad amlgyfrwng, gan ailadrodd y stori o safbwynt un o'r cymeriadau. Gallant ddefnyddio eu darluniadau eu hunain neu ddarluniadau sydd wedi'u sganio o'r llyfr. Hefyd dylent ddefnyddio seiniau – naill ai recordio eu lleisiau eu hunain neu effeithiau sain sydd wedi'u mewnforio o CD-ROM neu'r Rhyngrwyd. Dylent ystyried ddefnyddio animeiddio, effeithiau sain ac amseru eu graffeg a'u hysgrifennu i ychwanegu at yr effaith ddramatig.<br>• Dangoswch i'r plant enghreifftiau o waith ar y gweill i'r dosbarth ac annog y plant i addasu eu gwaith yn sgîl sylwadau gan bobl eraill. Ystyriwch pa mor hawdd ydyw i ddarllen a deall y gwaith. A yw animeiddio'n helpu neu'n amharu? I ba raddau *y mae'r cyflwyniad yn llwyddo i ddal sylw'r gynulleidfa?* | • Ddylunio cyflwyniad amlgyfrwng gan ddefnyddio graffeg a seiniau i ailadrodd stori gan ystyried yr effaith ddramatig.<br>• Dangos sensitifrwydd i anghenion y gynulleidfa. | • Gellir cysylltu'r gweithgaredd hwn â chwedl draddodiadol neu lên gwerin o Gymru. Gall y straeon hyn fod yn dda oherwydd mae patrwm a chynefindra ganddynt. Mae'n gallu bod yn hwyl i ail-ysgrifennu chwedl draddodiadol fel Hugan Fach Goch o safbwynt y blaidd etc.<br>• Gallent ysgrifennu'r stori i'w chyflwyno i'r plant iau. Os byddant yn gwneud hyn, bydd angen ystyried maint y ffont, arddull, y defnydd o iaith ailadroddol etc. Ymchwiliwch mewn detholiad o lyfrau i blant iau cyn dechrau ar y dasg.<br>• Trafodwch y straeon gorffenedig â'r dosbarth a gofynnwch pa nodweddion ym mhob un o'r straeon sy'n gweithio orau a pham. |

*© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg*

| **Amcanion Dysgu**<br>*Dylai disgyblion ddysgu…* | **Gweithgareddau Posib** | **Canlyniadau Dysgu**<br>*Gall disgyblion…* | **Pwyntiau i'w nodi** |
|---|---|---|---|
| **Tasg Asesu** | | | |
| • **pwynt allweddol**: defnyddio meddalwedd cyflwyno gydag effeithiau amlgyfrwng i gyflwyno dadl ar gyfer cynulleidfa benodol.<br>• **techneg**: defnyddio'r sgiliau y maent wedi'u dysgu yn yr uned hon yn effeithiol i berswadio cynulleidfa i fabwysiadu'r syniad a gyflwynir. | • Disgrifiwch sefyllfa ffug i'r dosbarth lle bydd darn o dir sy'n agos at yr ysgol yn cael ei werthu i ddatblygwyr i adeiladu canolfan siopa. Esboniwch fod rhai o'r Trigolion yn gwrthwynebu oherwydd eu bod nhw am i'r tir gael ei ddefnyddio fel llain las ar gyfer hamdden.<br>• Byddai angen i'r plant ystyried y defnydd tir arall yn yr ardal a thrafod y pwyntiau positif sydd o blaid y datblygwyr fel y swyddi a fydd yn cael eu creu, cyfleustra'r ganolfan siopa, busnesau eraill fel bwytai a allai gael eu denu i'r ardal ynghyd â'r pwyntiau negyddol fel mwy o draffig, colli'r llain las, dim maes chwarae gerllaw etc.<br>• Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, ac esboniwch wrth rai ohonynt y bydd yn rhaid idynt gyflwyno achos O BLAID y ganolfa siopa, a bydd yn rhaid i'r gweddill gyflwyno dadl yn ERBYN.<br>• Bydd yn rhaid i'r plant wneud gwaith ymchwil a bydd hwn yn cysylltu â Daearyddiaeth. Gallant ddefnyddio'r Rhyngrwyd i ddod o hyd i fapiau o'r ardal etc. neu ddefnyddio pecyn graffeg i gynhyrchu eu mapiau eu hunain.<br>• Dylent gyflwyno eu dadl i gynulleidfa a defnyddio eu cyflwyniad i roi gwybodaeth glir a hefyd cyflwyno eu dadl fel yr opsiwn mwyaf deniadol. | • Ddeall bod cyflwyniad yn cyfleu ystyr ac mae'n cael ei anelu at gynulleidfa benodol.<br>• Trefnu a mireinio eu meddyliau mewn pwyntiau allweddol a gosod gwybodaeth debyg ar yr un sleid.<br>• Cydweithio i ymchwilio, cynllunio, addasu a threfnu gwybodaeth.<br>• Cyfuno sleidiau i ffurfio cyflwyniad grŵp.<br>• Defnyddio testun, delweddau a sain i wella'r cyflwyniad.<br>• Defnyddio'r opsiynau argraffu i greu taflenni. | • Defnyddio'r rhyngrwyd i gael awyrluniau o'r ardal. |

*© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg*